



Datganiad Blynyddol ynghylch Uniondeb Ymchwil

Tachwedd 2022

Rhagair

1. Ein gweledigaeth yw bod gyda'r prifysgolion amlycaf yn y byd, bod yn rhagorol ein hymchwil, yn neilltuol ein haddysg, cael ein hysgogi yn sgîl creadigrwydd a chwilfrydedd yn ogystal â chyflawni ein rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r DU a'r byd. ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023: Ail-lunio yn sgîl COVID-19](#)).
2. Mae ymchwil yn rhan greiddiol o'n hunaniaeth sefydliadol, ac mae'r Brifysgol yn dyheu i fod gyda'r gorau o ran creu gwybodaeth ac offer newydd, a hynny yng nghyd-destun byd ymchwil sy'n fywiog ac yn gynhwysol.
3. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, cadarnhawyd bod 90% o'n hymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Mae hyn yn golygu ein bod ymhlith yr 20 prifysgol orau yn y DU am safon gyffredinol ein hymchwil. Mae'r Brifysgol yn ceisio gwella ei safle ymhellach ac yn cofleidio'r her hon ar lwyfan ryngwladol sy'n fwyfwy cystadleuol.
4. Mae uniondeb ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hollbwysig o weledigaeth y Brifysgol ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion y [Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil](#) ('Concordat') ac mae ganddi systemau cadarn yn eu lle i gefnogi ei hymchwilwyr i gynnal ymchwil hyd y safonau proffesiynol uchaf.

Y diben a'r cyd-destun

4. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cyflogwr ymchwilwyr yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad blynyddol ynghylch uniondeb ymchwil ('Y Datganiad Blynyddol'), sy'n rhoi'r canlynol:
 - 4.1. Crynodeb o gamau gweithgareddau yr ymgymerydd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau'r broses o ddeall a defnyddio uniondeb ymchwil;
 - 4.2. Sicrwydd bod y prosesau sydd yn eu lle i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
 - 4.3. Datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn o ran ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau;
 - 4.4. Datganiad ynghylch yr hyn y mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu yn sgîl unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; a

- 4.5. Datganiad ynghylch sut mae'r Brifysgol yn creu ac yn ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.
5. Dyma chweched Datganiad Blynyddol y Brifysgol. Ar ôl i bwyllgorau perthnasol y Brifysgol ei gymeradwyo, bydd y Datganiad Blynyddol hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol a darperir dolen i Ysgrifenyddiaeth Llofnodwyr y Concordat.
6. Mae hen Ddatganiadau Blynyddol y Brifysgol ar gael i'r cyhoedd o hyd ar ein tudalen we "[Uniondeb Ymchwil a'i Lywodraethu](#)".

Y cyfnod y mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn berthnasol iddo

7. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022 er mwyn cryfhau arferion ymchwil o ran uniondeb ymchwil/arferion da. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau y gofynnir amdanynt ynghylch camymddygiad ymchwil a diwylliant ymchwil yn ystod yr un cyfnod.

Camau gweithredu a gweithgareddau (Blwyddyn Academaidd 2021/2022)

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, mae'r Brifysgol wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i helpu i gefnogi a chryfhau uniondeb ymchwil. Crynhoir y gweithgareddau allweddol yn ystod y cyfnod hwn isod.

8. Adolygiad manwl o'r ffordd y mae'r Brifysgol wedi rhoi'r Concordat ar waith
- 8.1. Mae'r Brifysgol wedi dechrau adolygiad manwl o'r ffordd y mae'r Concordat wedi cael ei roi ar waith, gan ddefnyddio'r fersiwn newydd o [Offeryn Hunanasesu UKRIO](#). Diben yr adolygiad yw myfyrio ar ein darpariaeth o ran uniondeb ymchwil ac adnabod meysydd o ymarfer, polisiâu a diwylliant y Brifysgol a fydd yn elwa hwyrach yn sgîl yr adolygiad, a hynny er mwyn cryfhau ein hymrwymiad i uniondeb ymchwil a'r gefnogaeth a roddir i ymchwilwyr yn y maes hwn.
- 8.2. Tîm Uniondeb, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil ('RIGE') y Brifysgol sy'n arwain yr ymarfer adolygu, a byddant yn ymgysylltu â nifer o grwpiau o rhanddeiliaid ar draws y Brifysgol ac yn adrodd i Bwyllgor Uniondeb a Moeseg Ymchwil Agored y Brifysgol ('ORIEC').¹
- 8.3. Ar adeg paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn, mae 90% o'r cwestiynau Hunanasesu wedi cael eu hasesu'n llawn ac adnabuwyd nifer o feysydd gweithredu. Unwaith y bydd yr holl gwestiynau wedi cael eu hasesu'n llawn, bydd Cynllun Gweithredu Uniondeb Ymchwil yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i ORIEC i'w gymeradwyo (ar y cyd â grwpiau a phwyllgorau mewnol eraill yn ôl yr angen). Unwaith y caiff ei gymeradwyo, rhagwelir y bydd cynnydd yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn cael ei adolygu'n flynyddol hyd at ddyddiad ymarfer Hunanasesu yn y dyfodol a/neu ymarfer

¹ ORIEC yw'r corff goruchwyllo strategol ar gyfer materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n helpu i sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni gofynion y Concordat a bod ganddi systemau priodol yn eu lle i gefnogi a chryfhau uniondeb ymchwil ar draws y Brifysgol.

adolygu tebyg (sy'n debygol o gael ei gynnal bob 5 mlynedd i gyd-fynd â'r cylch adolygu ar gyfer y Concordat).

- 8.4. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws y Brifysgol yn hollbwysig wrth gwblhau'r Cynllun Gweithredu Uniondeb Ymchwil i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â Chynlluniau Gweithredu sy'n bodoli eisoes mewn meysydd eraill (e.e. Datblygu Ymchwilwyr a Diwylliant Ymchwil).

9. Rhaglen Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil Ar-lein ('Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil')

- 9.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, cwblhaodd mwy na 4,300 o staff a myfyrwyr yr Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil, o'i gymharu ag ychydig mwy na 2,300 yn ystod y Flwyddyn Academaidd flaenorol. Cyfrannodd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr israddedig (UG) a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir (PGT) a gwblhaodd yr Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022 at y cynnydd sylweddol hwn yn y ffigurau cwblhau. Fel y cyfeiriwyd ato mewn Datganiadau Blynyddol blaenorol, mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu ei Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil ei hun (a lansiwyd gyntaf yn 2017) sy'n orfodol i'r holl Staff Academaidd ac i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni astudio Doethurol, MRes neu MPhil. Mae hefyd yn orfodol i unrhyw ymchwilydd sy'n gwneud cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol am adolygiad moesegol o brosiect sy'n ymwneud ag Ymchwil Ddynol. Argymhellir yn gryf bod unrhyw un arall sydd ynghlwm wrth ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd yn cyflawni'r hyfforddiant.
- 9.2. Er bod cwblhau'r Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil yn orfodol i rai grwpiau o staff a myfyrwyr, mae sicrhau bod grwpiau o'r fath yn cwblhau'r hyfforddiant yn ogystal â monitro ac adrodd yn waith heriol, yn enwedig o ystyried maint a strwythur y Brifysgol. O'r herwydd, cafodd nifer o gamau amrywiol eu cymryd a/neu eu hadnabod er mwyn ymgorffori cwblhau'r Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil yn rhan o'r prosesau presennol a gwella'r ffordd y mae pobl yn cael gwybod am yr Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil a sut mae'n cael ei fonitro ac adroddiadau yn cael eu llunio amdano. Mae darn ehangach o waith hefyd wrthi'n digwydd ar draws adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol gyda'r nod o ystyried a ddylid creu polisi hyfforddi gorfodol ar gyfer y Brifysgol a fydd yn rhoi eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, cydymffurfiaeth, ac adrodd.
- 9.3. Er mwyn sicrhau bod Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn parhau i fod yn addas i'r diben, cynhaliwyd adolygiad o adborth yr holl staff a myfyrwyr a gafwyd yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol, ac roedd llawer o staff a myfyrwyr yn cadarnhau gwerth a phwysigrwydd yr hyfforddiant. Ymhlith rhai termau ac ymadroddion cyffredin a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r hyfforddiant roedd "defnyddiol", "o gymorth", "yn llawn gwybodaeth", "wedi'i strwythuro'n dda" a "hawdd ei ddilyn". Fodd bynnag, nododd yr adolygiad hefyd nifer o feysydd y mae angen eu gwella neu eu hystyried ymhellach, gan gynnwys datblygu astudiaethau achos a chynnwys sy'n benodol i'r ddisgyblaeth, cynyddu'r defnydd o ymarferion rhyngweithiol a/neu fideos (i gymryd lle rhywfaint o gynnwys sy'n seiliedig ar destun) a gwella TG/canllawiau datrys problemau sy'n seiliedig ar systemau a dangos y ffordd.

10. Moeseg Ymchwil

10.1. Mae cefnogi Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol ('PMYY') drwy weithredu'r gweithdrefnau a'r templedi newydd a gymeradwyir gan ORIEC, a hyrwyddo'r safonau moesegol uchaf un o ran ymchwil, yn parhau i fod yn faes hollbwysig i'r Brifysgol ganolbwyntio arno. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch perthnasol a oruchwylir gan Dîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg y Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022:

- **Adolygu profforma'r Adroddiad Moeseg Blynyddol**

Dogfen yw profforma'r Adroddiad Moeseg Blynyddol y bydd Ysgolion yn ei chwblhau'n rhan o'u dyletswydd i adrodd yn flynyddol am foeseg ymchwil i ORIEC. Diweddarwyd y profforma i gasglu gwybodaeth ychwanegol am:

- Defnyddio "Ceisiadau Grŵp" gan bwyllgorau PMYY a defnyddio goruchwylwyr neu Aelodau nad ydynt yn rhan o PMYY yn "Ail Adolygwyr" yn achos prosiectau sy'n gymwys i'w hadolygu ar sail gymesur
- Dulliau o gofnodi gwrthdaro buddiannau a ddatganwyd gan Aelodau'r PMYYau
- Cefnogaeth y Gwasanaethau Proffesiynol Lleol ar gyfer gweithrediadau'r PMYYau
- Tueddiadau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg o ran ceisiadau am adolygiad moesegol

Roedd yr uchod yn ychwanegol at gasglu'r wybodaeth arferol am nifer y ceisiadau i'r PMYYau, Aelodaeth o PMYYau, prosiectau Ymchwil Ddynol a oedd yn mynd rhagddynt cyn derbyn barn foesegol ffafriol a materion o bryder. Gofynnwyd hefyd i PMYYau gyflwyno eu dogfennau gweithdrefnol a dau gais am adolygiad moesegol a adolygwyd gan y PMYY yn ystod 2021.

- **Adolygiad o Adroddiadau Moeseg Blynyddol a dogfennau ategol**

Adolygodd RIGE yr adroddiadau a'r dogfennau ategol a anfonodd yr Ysgolion ac anfonwyd crynodeb o'r rhain i ORIEC. Mae'r adroddiadau'n cadarnhau i fwy na 2,500 o geisiadau gael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau PMYY y Brifysgol yn ystod blwyddyn galendr 2021, a chafodd 97% o'r ceisiadau farn foesegol ffafriol yn y pen draw. Yn sgîl y Broses Flynyddol ynghylch Adrodd Moesegol roedd RIGE wedi adnabod nifer o themâu cyffredin a meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt, ynghyd ag arferion gorau ac adnabod materion neu heriau penodol i PMYYau. Mae RIGE wedi cysylltu â PMYY drwy ddulliau cyfathrebu pwrpasol a gweminar i bob PMYY a gynhaliwyd ym mis Medi 2022 i sicrhau bod y themâu cyffredin sy'n codi yn sgîl y broses Adrodd Blynyddol ar Foeseg yn cael eu cyfleu a'u bod yn arwain at drafodaethau a myfyrio.

- **Ystyried ceisiadau "gwyro" gan PMYYau penodol**

Ystyriodd ORIEC geisiadau gan ddau PMYY i wyro oddi wrth weithdrefn yr adolygiadau moesegol a gymeradwyir gan ORIEC. Roedd y ddau gais i wyro yn ymwneud â'r broses adolygu moesegol ar gyfer

prosiectau Israddedig ac Ôl-raddedig a Addysgir, a chymeradwywyd y ddau ar sail tymor byr o ganlyniad i achos grymus iawn a gyflwynwyd gan y PMYY. Cymeradwywyd darn ehangach o waith hefyd gan ORIEC yn y maes hwn (gweler isod).

- **Creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y Brifysgol i ystyried a chynnig proses gadarn a chymesur amgen yn achos adolygiadau moesegol o brosiectau addysgol israddedig ac ôl-raddedig a addysgir sy'n ymwneud â phobl, data dynol neu feinwe dynol**

Sefydlwyd y Grŵp hwn o ganlyniad i bryderon gan rai PMYYau ynghylch a ellir defnyddio'r broses adolygu moesegol a gymeradwyir gan ORIEC i rai prosiectau israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, yn fwyaf nodedig felly, traethodau hir a phrosiectau sydd â'r nod o helpu myfyrwyr i ymarfer dulliau ymchwil. Canolbwynt y pryderon yw a yw prosiectau o'r fath yn "ymchwil" go iawn, a yw'r broses a gymeradwyir gan ORIEC yn gymesur ar gyfer prosiectau o'r fath (yn y naill achos neu'r llall), yr effaith ar y PMYYau a llwythi gwaith staff sy'n gorfod adolygu/paratoi ceisiadau o'r fath a'r effaith ar brofiad y myfyrwyr. Cyfarfu'r Grŵp am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2022 a'i nod yw argymhell fframwaith newydd ar gyfer adolygiadau moesegol o brosiectau o'r fath erbyn Chwefror 2023.

- **Penderfyniad i ailgynnull un o hen Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Brifysgol i ailystyried Fframwaith y Brifysgol ar gyfer Adolygiadau Moesegol o Ymchwil gan defnyddio data eilaidd a/neu ddata sydd ar gael yn gyhoeddus, a hynny'n unig.**

Disgwylir i'r Grŵp hwn ailgynnull yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023 a gofynnir iddo ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn y Fframwaith yn sgîl adborth gan ddefnyddwyr, goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu rhagor o ganllawiau ar brosiectau sy'n ymwneud â chyrchu/defnyddio data'r cyfryngau cymdeithasol ac ystyried nifer o ffyrdd y gellid symleiddio proses adolygu moesegol y Brifysgol ar gyfer prosiectau ymchwil gan ddefnyddio data eilaidd a/neu wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, a hynny'n unig.

- **Cyhoeddi dogfen "Cwestiynau Cyffredin" ar ei newydd wedd i PMYYau a rhoi cyngor ac arweiniad i PMYYau ar ystod o bynciau Ymhlith yr enghreifftiau y mae rhoi cyngor ac arweiniad ar:**

- Gweithredu proses "Cais Grŵp" ar gyfer adolygiad moesegol
- Yr amgylchiadau pan ddylid rhoi canlyniad "ffafrïol yn unol ag amodau" ar gyfer adolygiad moesegol, o'i gymharu â chanlyniad "dros dro/yn yr arfaeth" a'r graddau y gall ymchwilydd ddechrau ei ymchwil ar ôl derbyn y canlyniadau hyn.
- PMYY yn adolygu'r dogfennau ategol (ar y cyd â ffurflen gais yr adolygiad moesegol) ac ym mha fformat.

10.2. Ar y cyd â'r gwaith a wneir yn ganolog, gwnaed llawer o waith yn lleol gan Gadeiryddion ac Aelodau'r PMYYau a staff cymorth lleol i sicrhau bod y gweithdrefnau moeseg newydd yn cael eu rhoi ar waith ac i gefnogi ymchwilwyr i gyrraedd y safonau moesegol uchaf. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch sydd wedi digwydd yn lleol:

- Creu Protocolau Moeseg/Gweithdrefnau Gweithio Safonol ar gyfer prosiectau ymchwil sy'n bodloni "maen prawf adolygu llawn" penodol.

- Rhoi proses Cais Grŵp ar waith ar gyfer adolygiadau moesegol.
- Datblygu canllawiau lleol a/neu ddisgyblaethol ar y broses adolygu moesegol a disgwyliadau'r PMYYau.
- Sesiynau gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth i staff a myfyrwyr ar broses yr adolygiadau moesegol a'r materion moesegol cyffredin sy'n codi yn y ddisgyblaeth.
- Rhoi hyfforddiant moeseg i staff a myfyrwyr.
- Cysylltu â chydweithwyr addysgu a dysgu i ddeall yn well y mathau o brosiectau gan fyfyrwyr a gynhelir yn yr Ysgol, y graddau y mae prosiectau o'r fath yn "Ymchwil" a pha atebion y gellid eu rhoi ar waith yn lleol i reoli adolygiadau moesegol prosiectau o'r fath.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, rhoi adborth ac awgrymiadau i RIGE a ORIEC i wella'r broses adolygu moesegol (yn benodol yn achos prosiectau gan fyfyrwyr).

11. Camymddygiad Ymchwil

11.1. Mae'r Brifysgol wedi bod yn cynnal adolygiad a diweddariad cynhwysfawr o'i [Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd \('ARM'\)](#). Ym mis Ionawr 2022, cymeradwyodd ORIEC set o ddiwygiadau "Cam 1" i'r Weithdrefn ARM a ddiweddarodd y diffiniad o ARM er mwyn ei gysoni â'r diffiniad yn y Concordat diwygiedig. Cadarnhaodd diwygiadau Cam 1 hefyd mai Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Cwnsler Cyffredinol fydd yn cyflawni rôl y 'Person a Enwir'.

11.2. Mae ail gam yr adolygiad o Weithdrefn ARM yn dal i fynd rhagddo ac yn rhan ohono mae rhoi eglurder ar y weithdrefn yn achos honiadau ARM, gan ganolbwyntio hefyd ar yr wybodaeth a'r cymorth a roddir i bawb sy'n ymwneud â honiad - gan gynnwys yr achwynwyr a'r ymatebwyr. Mae ystyriaeth allweddol hefyd yn ymwneud â sut mae'r Weithdrefn ARM yn gysylltiedig â gweithdrefnau allweddol eraill y Brifysgol gan gynnwys gweithdrefnau cwyno/disgyblu staff. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi ymgorffori canllawiau a thempled drafft UKRIO pan fo'n briodol.

11.3. Bwriedir cwblhau'r ymgynghoriad ar Weithdrefn ddiwygiedig ddrafft ARM a chytuno arno yn 2022/2023.

11.4. Mewn perthynas ag ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn myfyrwyr, mae Polisi Uniondeb Academaidd y Brifysgol wedi cael ei ddiweddarau a bellach mae'n diffinio Camymddwyn Academaidd ym maes Ymchwil. Mae'r diffiniad yn cyd-fynd â diffiniad ARM y Brifysgol ar gyfer staff. Mae'r diweddariad hwn wedi helpu i sicrhau bod gan y Brifysgol ddiffiniad clir a chyflawn o'r hyn yw'r polisi ar gamymddwyn ymchwil gan fyfyrwyr, ac mae bellach yn gyson â datganiadau sy'n berthnasol i ymchwilwyr eraill ac yn cydymffurfio â'r Concordat.

11.5. Gwnaed y diwygiadau canlynol hefyd yng Ngweithdrefn Camymddwyn Academaidd y Brifysgol yn achos Myfyrwyr Ymchwil i helpu i sicrhau bod y Brifysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion y Concordat:

- Ychwanegwyd datganiad i gadarnhau y bydd y weithdrefn yn parhau hyd at ei therfyn os bydd myfyriwr yn ymadael â'r Brifysgol yn ystod

ymchwiliad, a hynny er mwyn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu angenrheidiol, gan gynnwys adrodd i bartneriaid allanol, megis cyhoeddwy, yn cael eu cwblhau;

- mae'r weithdrefn yn eglurach o ran rhoi gwybod am unrhyw honiadau i sicrhau bod cyllidwyr yn derbyn adroddiadau pan fo angen (e.e. UKRI);
- bellach, mae aelod allanol yn aelod o Banel Uniondeb Academaidd Cam 3 pan fydd yr honiadau'n ymwneud â chamymddygiad ymchwil.

11.6. Ni newidiwyd y Weithdrefn Camymddwyn Academaidd ar gyfer myfyrwyr ar Raglenni Astudio a Addysgir ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/2022 ac mae'r weithdrefn yn parhau i fodloni gofynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae rhai addasiadau mân i Weithdrefn Blwyddyn Academaidd 2022/2023 sy'n ymwneud â rhoi eglurder ynghylch y broses weithredol a'r sancsiynau sydd ar gael e.e. ystyried y ffaith y gellir rhoi hyfforddiant sgiliau o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb ac egluro pryd y gall Cadeirydd y Bwrdd Arholi wneud penderfyniadau a phryd y dylid trosglwyddo penderfyniadau i Banel Uniondeb Academaidd. Bydd adolygiad llawnach o'r drefn yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, ar y cyd â phrosiect ehangach sy'n edrych ar sut mae'r Brifysgol yn ystyried Uniondeb Academaidd a datblygu sgiliau.

12. Ymchwil Glinigol

12.1. Mae gwaith wedi parhau ar wella tryloywder Treialon Clinigol, ac mae 86% o dreialon ym Mhrifysgol Caerdydd a oedd 'i fod i adrodd' wedi rhoi gwybod am eu canlyniadau (i fyny o 72% ym mis Medi 2021). Adnabuwyd camau gweithredu i gynyddu lefel yr adrodd ar ganlyniadau CTIMP a noddir gan Brifysgol Caerdydd ar wefan Traciwr Treialon yr UE. Grŵp Treialon Clinigol y Brifysgol sy'n rhan o Grŵp Llywodraethu Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol sy'n goruchwyllo'r gweithgarwch hwn.

12.2. Sefydlwyd Swyddfa Ymchwil ar y Cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gefnogi'r broses o ddatblygu, sefydlu a chymeradwyoymchwil iechyd yng Nghaerdydd.

12.3. Ym mis Mai 2022, cynhaliodd NHS Digital archwiliad o dreial 'AML 15' y Brifysgol, gan ganolbwyntio ar Drosoglwyddo Gwybodaeth, Rheoli Mynediad a Dinistrio Data. Mae canfyddiadau'r archwiliad ar gael i'r cyhoedd [yma](#). Datblygwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phob canfyddiad.

13. Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas â'r Deddf Meinweoedd Dynol (HTA).

13.1. Cafodd y llinellau adrodd o ran llywodraethu a rheoli risgiau'r HTA rhwng y Pwyllgor Safonau Meinweoedd Dynol ('HTSC')² a Choleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, lle mae pob gweithgaredd sy'n ymwneud â'r HTA yn digwydd bron iawn, eu mireinio a'u ffurfioli. Yn benodol:

- Bydd HTSC yn derbyn sicrwydd gan Ddeiliad y Drwydded Gorfforaethol, gan mai ef yw Cadeirydd Bwrdd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, bod y risgiau sydd ynghlwm wrth gydymffurfio â'r

² HTSC yw'r pwyllgor sy'n goruchwyllo'r holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r HTA ar draws y Brifysgol.

HTA yn cael eu rheoli'n briodol yng Ngholeg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd. Bydd Deiliad y Drwydded Gorfforaethol (sef Rhag Is-ganghellor Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd) hefyd yn rhoi sicrwydd cydymffurfio ehangach i'r HTSC gan Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol ('AHSS') a Choleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg ('PSE'), a hynny drwy:

- Adroddiadau blynyddol a'r newyddion diweddaraf gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol
- Cyfarfodydd ad hoc gyda Rhag Is-Ganghellor Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Rhag Is-Ganghellor Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg

Bydd pob un o'r uchod i gyd yn galluogi'r HTSC i adolygu penderfyniadau sy'n ymwneud â'r HTA a wneir ar lefel y colegau ac uwchgyfeirio os ystyrir bod penderfyniadau'n mynd yn groes i gydymffurfio rheoleiddiol, sy'n annhebygol. Ffurfiolwyd y llinell adrodd newydd hon yng nghylch gorchwyl yr HTSC ym mis Mai 2022.

- Bydd yr Unigolyn Dynodedig ar gyfer y Drwydded Ymchwil ledled y Brifysgol a Rheolwr yr HTA yn paratoi adroddiad blynyddol y bydd Bwrdd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn ei ystyried. Bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o gydymffurfiaeth a chamau gweithredu sydd eu hangen ar lefel coleg neu ysgol, yn ogystal ag adolygiad o unrhyw gamau blaenorol. Cyflwynwyd yr adroddiad ffurfiol cyntaf i Fwrdd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd ym mis Mawrth 2022.
- Yn 2021, aeth rheolwr yr HTA ati i ddatblygu a chynnal cofrestr lefel uchel o'r risgiau a ddefnyddir i roi gwybod am y strategaeth a'r gweithdrefnau cydymffurfio â'r HTA yn y Brifysgol, yn ogystal â'u mireinio a'u datblygu. Bydd y risgiau'n cael eu hadrodd yn flynyddol i'r HTSC (at ddibenion sicrwydd a chadarnhau'r strategaeth) a Bwrdd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd (at ddibenion camau gweithredol a datblygu strategol).

13.2. Mae'r Brifysgol wedi datblygu hunanasesiad er mwyn i Brif Ymchwilwyr werthuso a yw cydsyniad yn ddilys ac yn briodol o ran cadw deunydd perthnasol dan Drwydded yr HTA pan ddaw'r astudiaeth i ben. Bydd yr hunanasesiadau'n cael eu hadolygu gan Dîm Cydymffurfio'r HTA cyn y caniateir deunydd yn unol â Thrwydded yr HTA. Bydd y broses newydd yn cael ei chyflwyno yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-2023.

13.3. Dechreuwyd ar y gwaith o gwmpasu'r gofynion er mwyn ailddatblygu'r gronfa ddata ar-lein sy'n cynnwys manylion o'r holl astudiaethau neu gasgliadau sy'n defnyddio meinweoedd dynol yn y Brifysgol. Bydd hyn yn parhau yn ystod Blwyddyn Academiaidd 2022/2023.

14. Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas ag Anifeiliaid

14.1. Yn ystod Blwyddyn Academiaidd 2021/2022 'dychwelwyd i fywyd normal' o dipyn i beth, yn dilyn cynnwrf y flwyddyn flaenorol, o ran bod ymchwilwyr ar y safle a gwaith gweithdrefnol yn digwydd heb gyfyngiadau. Mae'r tîm technegol wedi parhau i gefnogi ymchwilwyr, ac maen nhw'n canolbwyntio ar ofalu am yr anifeiliaid ar sail ddyddiol, eu cynnal au cadw, a chynnal gwiriadau lles ar y safle.

14.2. Newid sylweddol sy'n effeithio ar ymchwil ar anifeiliaid oedd cyhoeddi Rhaglen o Newidiadau gan yr Uned Rheoleiddio Anifeiliaid ym myd Gwyddoniaeth ('ASRU'), sef adran y llywodraeth sy'n rheoleiddio gwaith a wneir yn unol â Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 ('ASP'). Arweiniodd y rhaglen hon at newidiadau ym mhob ffordd rydyn ni'n ymwneud ag ASRU, gan gynnwys y ffordd y mae'r Brifysgol yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â nhw, a'r ffordd y caiff y Brifysgol ei harolygu a'i harchwilio yn y dyfodol. Roedd hyn wedi peri i adran Gwasanaethau Biolegol y Brifysgol i gynnal adolygiad o'r prosesau a'r systemau i baratoi ar gyfer archwiliad yn y dyfodol. Hefyd, mae'r rhaglen newid wedi arwain at newid mewn prosesau penodol a wna tîm y Gwasanaethau Biolegol.

14.3. Mae Prifysgol Caerdydd, sy'n rhan o'r [GW4](#)³, yn clustnodi cyllid ar gyfer Rheolwr Rhaglenni Rhanbarthol ('RPM') y [Ganolfan Genedlaethol er Amnewid, Coethi a Lleihau nifer yr Anifeiliaid Ymchwil](#) ('NC3R'), sy'n rhoi hyfforddiant, cyngor ac yn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu. Mae gweithio gyda'r RPM yn sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio gydag anifeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am bob datblygiad o ran y 3R. Ym Mwyddyn Academaidd 2021/2022 sefydlwyd Grŵp 3R Ymchwilwyr ar ddechrau eu Gyrfa a chafodd un o ymchwilwyr y Brifysgol ei ganmol yn fawr yn sgîl ennill gwobr y 3R Rhyngwladol gan Ganolfan y NC3R.

14.4. Ffocws ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf fu cofnodion hyfforddi trwyddedeion yn unol ag ASPA, a chynhaliodd y Swyddog Hyfforddiant a Chymwyseddau a enwyd archwiliad o'r cofnodion hyfforddi. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn gyfredol ond mae hefyd yn sicrhau bod system gadarn yn ei lle er mwyn rhoi hyfforddiant arbenigol ar draws y Brifysgol.

15. Diwylliant yr Ymchwil

15.1. Mae'r Brifysgol yn ystyried diwylliant yr ymchwil o hyd yn faes ffocws allweddol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i feithrin diwylliant ymchwil sy'n gefnogol, yn greadigol, yn gynhwysol ac yn agored sydd hefyd yn galluogi ei hymchwilwyr i lwyddo a datblygu.

15.2. Ym mis Rhagfyr 2021, cymeradwyodd yr uwch-reolwyr gynnig ar gyfer "[Trawsnewid Diwylliannau Ymchwil](#)" ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys blaenoriaethau strategol a meysydd gweithredu. Mae'r cynnig yn cynnwys canolbwyntio'n fwy ar fynd i'r afael â materion systemig a strwythurol sy'n cael effaith ar ein hymchwilwyr, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o asesu ymchwil mewn ffordd gyfrifol, ymchwil agored a gwell cydnabyddiaeth o bawb sy'n ymwneud ag ymchwil. Ym mis Medi 2022, cymeradwyodd yr uwch-reolwyr gynnig pellach i hyrwyddo'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth hon a enwir "*thrive | ffynnu yng Nghaerdydd*", yn ogystal â lansio arolwg o'r diwylliant ymchwil yn ystod hydref 2022. Bydd yr arolwg hwn yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil.

³ Consortiwm ymchwil sy'n cynnwys Prifysgol Bryste, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Caerfaddon a Phrifysgol Caerwysg.

15.3. Mae Gweithgor Diwylliant Ymchwil y Brifysgol ('RCWG'), sy'n cynnwys cynrychiolwyr ym meysydd uniondeb ymchwil a chamymddwyn ym maes ymchwil, wedi parhau i gwrdd ac ymgysylltu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Academaidd ddiwethaf i helpu i sicrhau bod uniondeb ymchwil yn rhan o drafodaethau ehangach sy'n ymwneud â diwylliant ymchwil ac nad yw'n cael ei reoli ar wahân. Y gobaith yw y bydd ymgysylltu parhaus rhwng RIGE a'r RCWG, ynghyd â rhywfaint o orgyffwrdd yn aelodaeth ORIEC a RCWG, yn helpu i sicrhau bod uniondeb ymchwil a gwaith sy'n gysylltiedig â diwylliant ymchwil yn atgyfnerthu ei gilydd:

- Mawrth 2022 - Rhoddwyd trosolwg i aelodau'r RCWG o Offeryn Hunanasesu UKRIO a'r ymarfer adolygu y cyfeirir ato ym mharagraff 8 uchod. Gofynnwyd i'r aelodau fyfyrion ar gwestiynau penodol sy'n ymwneud â diwylliant uniondeb ymchwil ac i roi adborth ac awgrymiadau ar feysydd gweithredu arfaethedig.
- Mai hyd Awst 2022 - Ystyriaeth a chynllunio cychwynnol er mwyn datblygu Arolwg o Ddiwylliant Ymchwil Prifysgol Caerdydd (gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud ag arferion da ymchwil a chamymddwyn ym maes ymchwil).
- Gorffennaf 2022 – Gofynnwyd i aelodau'r RCWG roi mewnbwn ar fersiwn ddiwygiedig o Weithdrefnau Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol.
- Medi 2022 – Gofynnwyd i aelodau'r RCWG gyfrannu at y Datganiad Blyneddol hwn.

15.4. Bydd gweithredu'r cynnig ar Drawsnewid Diwylliannau Ymchwil o dan nawdd y prosiect *"thrive | ffynnu yng Nghaerdydd"* yn parhau i fod yn faes gweithredu allweddol i'r Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023. Mae'r Brifysgol wedi creu dwy swydd Diwylliant Ymchwil newydd (un ar lefel 'Swyddog' ac un ar lefel 'Rheolwr') i helpu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae'r broses recriwtio ar gyfer y swyddi hyn yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, a'r gobaith yw y bydd deiliaid y swyddi wedi dechrau yn eu swyddi cyn diwedd 2022.

16. Ymchwil Agored a Thryloywder

16.1. Mae gwaith Grŵp Gweithredol Ymchwil Agored y Brifysgol ('OROG') yn parhau, a bellach penodwyd 'arweinwyr ar lefel y Colegau ym maes Ymchwil Agored ac Uniondeb'. Ar hyn o bryd, mae grŵp yr OROG yn adolygu disgrifiad rôl yr 'Arweinydd ym maes Ymchwil Agored ac Uniondeb' ar lefel yr Ysgolion ac yn ystyried i ba raddau y gellid ailystyried y rôl benodol hon yn set o gyfrifoldebau 'ymchwil agored' ac 'uniondeb' y mae'n rhaid i bob Ysgol fynd i'r afael â nhw. Yna, gellid cyfuno'r cyfrifoldebau hyn yn rhan o un neu ragor o rolau arwain ymchwil yr Ysgol, a hynny i gyd-fynd orau ag anghenion a strwythur yr Ysgol.

16.2. Diweddarwyd [Polisi Mynediad Agored](#) y Brifysgol i gyd-fynd â Pholisi Mynediad Agored UKRI 2022. Ar ben hynny, diweddarwyd yr adnoddau hyfforddi i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

16.3. Mae'r Brifysgol wedi bod yn dilyn cynnydd yr [Ymchwiliad ar Atgynhyrchedd ac Uniondeb Ymchwil](#) o dan law Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin ac mae RIGE wedi bod yn rhoi diweddariadau lefel uchel cyfnodol i ORIEC.

17. Asesu ymchwil gyfrifol

17.1. Llwyddodd Gweithgor ('DWG') DORA y Brifysgol⁴ i gwblhau Cynllun Gweithredu DORA yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, ac arweiniodd hyn at gyfuno'r DWG yn rhan o'r Gweithgor ar Ddiwylliant Ymchwil ehangach ('RCWG').

17.2. Mae ffocws parhaus wedi bod ar hyfforddiant a datblygiad, ac mae 19 o Ysgolion wedi cael hyfforddiant ar DORA ac asesu ymchwil gyfrifol (ac amserlennwyd pedair ysgol arall i gael hyfforddiant yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf).

17.3. Datblygodd y Brifysgol ddogfen 'Archwiliad Iechyd DORA' i fonitro'r graddau y mae egwyddorion DORA yn cael eu rhoi ar waith yn yr Ysgolion. Ar hyn o bryd mae'r RCWG yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno hyn yng nghyd-destun monitro arferion diwylliant ymchwil Ysgolion yn ehangach.

17.4. Mae [CRediT](#) (Tacsonomeg Rolau'r Cyfranwyr)⁵ yn cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn tair Ysgol (Biowyddorau, Gwyddorau Daear a'r Amgylchedd, Ffiseg a Seryddiaeth) fel y gellir rhoi rhagor o dryloywder a chydabyddiaeth i ymchwilwyr Caerdydd o ran eu cyfraniadau amrywiol i allbynnau ysgolheigaidd.

18. Ymchwil yr ymddiriedir ynddi

18.1. Mae'r Brifysgol yn parhau i adolygu ei dull presennol a'i strwythur llywodraethu ym maes Ymchwil Ddibynadwy ac mae'n ymgymryd â nifer o weithgareddau gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Gweithredu Ymchwil Ddibynadwy. Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys nifer o randdeiliaid ar draws y Brifysgol gan gynnwys y Rhag Is-Ganghellor Recriwtio Myfyrwyr Rhyngwladol a Myfyrwyr y DU a Phennaeth Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg, a nifer o dimau yn y gwasanaethau proffesiynol gan gynnwys y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi, Cydymffurfiaeth a Risg, Adnoddau Dynol a'r Gofrestrfa.

18.2. Er mwyn helpu i gefnogi'r adolygiad, mae llawer iawn o waith cefndir, casglu gwybodaeth ac ymgysylltu yn digwydd rhwng y Brifysgol, rhanddeiliaid mewnol, grwpiau allanol ac asiantaethau'r Llywodraeth. Ymhlith rhai gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022 y mae:

- Ymgysylltu â chydweithwyr Grŵp Russell, y [Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch](#) ('HEECA') a'r [Tîm Cyngori ar Ymchwil ar y Cyd](#) ('RCAT') i drafod syniadau a rhannu'r arferion gorau

⁴ [Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil](#)

⁵ Mae CRediT yn disgrifio 14 rôl sy'n cynrychioli'r gwaith a wna cyfranwyr fel arfer tuag at allbwn ysgolheigaidd

- Sesiynau codi ymwybyddiaeth a/neu hyfforddi gyda nifer o bwyllgorau a grwpiau mewnol gan gynnwys ORIEC, Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Grŵp Strategaethau Rhyngwladol, Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol ac ymchwilwyr yn yr Ysgol Peirianeg.
- Cyflwyno un Cais am Drwydded Allforio Unigol a Safonol.
- Sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer adnoddau ychwanegol gan y Brifysgol a chynnig eang i reoli Ymchwil yr Ymddiriedir ynddi a Rhyngwladoli ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Recriwtio Swyddog Uniondeb Ymchwil a Llywodraethu ychwanegol i roi cymorth penodol ym maes Ymchwil yr Ymddiriedir ynddi ac wrth weithio gydag ymchwilwyr a chydweithwyr yn y gwasanaethau proffesiynol ar draws y Brifysgol adnabod, lliniaru a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chydweithio rhyngwladol, gan gynnwys gofynion o ran rheoliadau rheoli allforion a'r Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol a Buddsoddi.

19. Arferion cyllido allanol

19.1. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder a diwydrwydd dyladwy wrth reoli cyllid ymchwil gan ffynonellau allanol. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, cynhaliodd "Panel Cyngori ar Gyllidwyr" newydd y Brifysgol, un o is-bwyllgorau'r Cyngor, ei gyfarfodydd cyntaf. Mae'r Panel Cyngori ar Gyllidwyr yn rhoi cyngor i Bwyllgor Gwaith y Brifysgol ar briodoldeb derbyn, trosglwyddo (i drydydd partïon) neu wrthod cyllid allanol (gan ffynonellau dyngarol, grantiau a chontractau ymchwil, neu weithgareddau datblygu masnachol). Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor yn yr un meysydd.

19.2. Bydd gwaith y Panel Cyngori ar Gyllidwyr yn helpu i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i wneud penderfyniadau cyfrifol, ac yn gweithredu gydag uniondeb wrth ystyried ffynonellau cyllid allanol.

20. Rheoli data

20.1. Ar y cyd â gweithgarwch busnes fel arfer i gefnogi arferion da ym maes rheoli data ymchwil, gan gynnwys cyngor a hyfforddiant ar ddiogelu data a rheoli cofnodion a chwblhau holiaduron gan gyllidwyr a chydweithwyr ymchwil ar ddiogelu gwybodaeth, gwnaed nifer o gamau yn ystod blwyddyn academaidd 2021/2022 i roi rhagor o gymorth i'n hymchwilwyr a/neu sicrhau'r arferion gorau ym maes rheoli data:

- Datblygu holiadur cyn-contract i helpu'r rheiny sy'n cychwyn prosiectau ymchwil i ddeall pa ofynion o ran Diogelu Data fydd ganddynt fel y gellir rhoi cymorth priodol yn gynnar.
- Llunio polisiâu cydymffurfio data'r Brifysgol â gofynion cyllidwyr perthnasol.
- Rhoi cymorth diogelu data/rheoli data yn rhan o un o archwiliadau NHS Digital ym mis Mai 2022.
- Cydweithio â nifer o dimau yn y Gwasanaethau Proffesiynol i sicrhau bod dull y Brifysgol o ran datgelu achosion o aflonyddu a gadarnhawyd i Ymddiriedolaeth Wellcome (yn unol ag un o ofynion Ymddiriedolaeth Wellcome) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar Ddiogelu Data. Sefydlwyd gweithgor a gynhaliodd Brawf Buddiant Cyfreithlon gan

benderfynu bod gan y Brifysgol sail gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth hon.

20.2. Ar ôl i Jisc gyhoeddi'n gynharach eleni na fyddai ei Wasanaeth Adneuo Ymchwil yn parhau, gwnaed gwaith hefyd i adnabod dewisiadau posibl eraill i greu cadwrfa ar gyfer data ymchwil y Brifysgol. Bellach, mae cynlluniau i gaffael system adneuo data newydd wedi dechrau, a'r nod yw y bydd system newydd yn ei lle erbyn diwedd 2023.

21. Ymgysylltu allanol a rhannu'r arferion gorau

21.1. Mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol er mwyn rhannu'r arferion gorau a chwilio ac ystyried trefniadau llywodraethu effeithiol er hyrwyddo uniondeb ymchwil. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o UKRIO a Fforwm Uniondeb Ymchwil Grŵp Russell a gwahoddwyd aelod o RIGE i roi sgwrs i danysgrifwyr UKRIO ar system Arweinwyr Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn rhan o Gynhadledd Flynyddol UKRIO 2022. Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau presenoldeb RIGE yng nghyfarfodydd Cymdeithas Noddwyr y Brifysgol pryd bynnag y bo modd.

21.2. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi parhau (boed ar ei phen ei hun, neu'n rhan o grŵp ehangach o gynrychiolwyr) i ymgysylltu â mentrau ledled y DU yn ogystal â chanllawiau a/neu bolisiau arfaethedig sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil a/neu roi adborth ar y rheiny. Ymhlith yr enghreifftiau penodol y mae:

- Rhoi mewnbwn i ddogfen ganllaw [Good Practice in Research: Research Integrity Champions, Leads & Advisers](#) UKRIO a bod yn adolygwr ar eu cyfer.
- Cymryd rhan yn y '[Concordats and Agreements Review](#)' a gomisiynwyd gan UUK, UKRI ac Ymddiriedolaeth Wellcome i drin a thrafod effaith concordatau a chytundebau ar ddiwylliant ymchwil a chyd-destunau gwahanol byd ymchwil. Cynhelir yr adolygiad hwn ar y cyd ag [adolygiad llywodraeth y DU o fiwrocratiaeth ymchwil](#) i gefnogi nodau ehangach [Cynllun y Dyfodol y DU o ran Ymchwil a Datblygu](#). Cynhaliodd cynrychiolwyr o Brifysgol Caerdydd arolwg ar-lein yn rhan o'r adolygiad hwn a chawsant eu cyfweld i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu'r astudiaethau achos sefydliadol.
- Rhoi adborth ar gynnwys arfaethedig yr hyfforddiant Rheoli Allforion yn myd AU, dan arweiniad Prifysgol Cranfield a Phrifysgol Caeredin sy'n rhan o brosiect Cronfa Ddatblygu Research England.

Gweithgareddau yn yr arfaeth

22. Bydd y gweithgareddau canlynol ym maes uniondeb ymchwil yn cael eu trin yn feysydd blaenoriaeth yn ystod Blwyddyn Academiaidd 2022/2023:

- Cwblhau Cynllun Gweithredu ar Uniondeb Ymchwil sefydliadol, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer Hunanasesu y cyfeirir ato ym mharagraff 8;
- Cyflwyno ateb cadarn, cymesur ac ymarferol ar gyfer yr adolygiad moesegol o brosiectau addysgol israddedig ac ôl-raddedig a addysgir sy'n ymwneud â

phobl, data dynol neu feinwe ddynol, yn seiliedig ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y cyfeirir ato ym mharagraff 10; a

- Datblygiad pellach o strwythurau a systemau llywodraethu'r Brifysgol ynghylch Ymchwil yr Ymddiriedir ynddi a rhyngwladoli, gan gynnwys datblygu Polisi'r Brifysgol ar Reoli Allforion ac offer i gefnogi cydymffurfiaeth yn y maes hwn.

23. Yn ogystal â'r blaenoriaethau uchod a'r meysydd gwaith a'r mentrau a restrir yn yr adran "*Camau a Gweithgareddau*", mae nifer o weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil y bwriedir iddynt ddechrau a/neu ddod i ben yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf gan gynnwys:

- adolygiad o [Gôd Ymarfer Uniondeb Ymchwil a Llywodraethu'r](#) Brifysgol (fframwaith arferion ymchwil da'r Brifysgol); a
- cadarnhau'r cyfrifoldebau o ran 'ymchwil agored' ac 'uniondeb' y mae'n rhaid i bob Ysgol sicrhau eu bod yn cael sylw. Rhagwelir y gellid cyfuno'r cyfrifoldebau hyn yn rhan o un neu ragor o rolau arwain ymchwil Ysgolion ac y gallent gymryd lle rôl bresennol yr 'Arweinydd ar Uniondeb Ymchwil'.

Ymdrin â honiadau o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil

24. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phrosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddygiad ymchwil yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn, yn deg ac yn briodol i anghenion y Brifysgol.

Honiadau yn erbyn staff Prifysgol Caerdydd

25. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil Academaidd o ddifrif ac mae ganddi weithdrefn benodol i ymdrin â honiadau o'r fath. Mae Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol ('Y Weithdrefn ARM'), ynghyd â swyddog penodol a enwir, ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.

26. Mae gan y weithdrefn ARM dri cham. Ym mhob cam, hwyrach y caiff y cyhuddiadau eu gollwng neu eu dwyn ymlaen i'r cam nesaf:

26.1. Cam Rhagarweiniol pan fydd yr Unigolyn a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r Rhag Is-Ganghellor ac fel arfer cyn pen 20 diwrnod gwaith, yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r cyhuddiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygredd y pryderon.

26.2. Cam sgrinio pan fydd Panel o hyd at dri aelod o staff mewnol sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol a statws academaidd, a hynny fel arfer cyn pen 30 diwrnod gwaith, yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â chyhuddiad yr Achwynnydd a'r Atebydd, gan ofyn am ragor o eglurhad os bydd angen. Bydd y Panel Sgrinio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig a chyfrinachol o'i werthusiad a'i benderfyniad, ac yn ei anfon at yr Unigolyn a Enwir.

26.3. Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol pan sefydlir panel a fydd yn cynnwys Cadeirydd annibynnol a diduedd yn ogystal â dau aelod diduedd sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un

o'r ddau aelod fod o'r tu allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn weithwyr y Brifysgol nac yn gweithio o dan contract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.

27. Fel y nodwyd ym mharagraff 11, mae'r Weithdrefn ARM yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir y bydd gweithdrefn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2022/2023.

Honiadau yn erbyn myfyrwyr

28. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o gamymddwyn gan fyfyrwyr yn ystod ymchwil, neu'n gysylltiedig â hi, o ddifrif ac mae ganddi ystod o bolisiâu a gweithdrefnau i ymdrin â honiadau o'r fath. Bydd yr union bolisi a gweithdrefn i'w defnyddio yn dibynnu ar natur yr honiad/ymddygiad honedig a lefel y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi ymrestru arni. Y polisi mwyaf perthnasol mewn perthynas â chamymddwyn gan fyfyrwyr yn y cyd-destun penodol hwn yw Polisi Uniondeb Academaidd y Brifysgol a'r Gweithdrefnau cysylltiedig o ran Camymddwyn Academaidd. Mae pob un o'r rhain yn rhan o Reoliadau Academaidd y Brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.
29. Mae Polisi Uniondeb Academaidd y Brifysgol yn nodi egwyddorion cyffredinol yr hyn yw Camymddwyn Academaidd ac mae'n cadarnhau y bydd Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd berthnasol yn cael ei defnyddio yn achos unrhyw fyfyrwr yr honnir iddo gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Y gweithdrefnau perthnasol y cyfeirir atynt yw Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) y Brifysgol a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd y Brifysgol (Myfyrwyr a Addysgir).
30. Mae gan Weithdrefnau Camymddwyn Academaidd y Brifysgol broses deg a chlir sy'n ystyried ac yn ymchwilio i bryderon ynghylch camymddwyn academaidd. Mewn perthynas â'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) yn benodol, mae gan y weithdrefn dri cham, sef:
- 30.1. Cam 1 (Adolygiad Rhagarweiniol) - bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd (neu'r enwebai priodol), fel y bo'n berthnasol, yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r pryderon. Gan ddibynnu ar pryd y codwyd y pryderon, hwyrach mai canlyniad yr Adolygiad Rhagarweiniol fydd diystyru'r pryderon, cymryd camau adferol neu gyfeirio'r pryderon at ymchwiliad Cam 2.
- 30.2. Cam 2 (Ymchwiliad Ffurfiol) - bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi un o uwch-aelodau staff academaidd yr ysgol i fod yn Swyddog Ymchwilio ac ystyried y pryderon, cwrdd â'r partiön perthnasol a llunio adroddiad. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn ystyried yr adroddiad a'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu, ar sail tebygolrwydd, a gafwyd Camymddwyn Academaidd. Caiff Pennaeth yr Ysgol wrthod y pryderon os nad oes sail iddynt neu os nad oes digon o dystiolaeth bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, neu caiff benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Os penderfynir bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff Pennaeth yr Ysgol gyfeirio'r achos at Banel Uniondeb Academaidd Cam 3 neu caiff benderfynu, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol

eraill, nad yw'r achos yn cyfiawnhau cael ei gyfeirio at Gam 3 ac y gellir cymryd camau adferol penodol yn lle hynny.

30.3. Cam 3 (Panel Uniondeb Academaidd) - caiff Panel Uniondeb Academaidd ei gynnwys, sy'n cynnwys 3 aelod staff academaidd o'r tu allan i'r Ysgol, i ystyried yr achos. Gall y panel wrthod y pryderon neu benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Os yw'r panel yn penderfynu bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff osod un gyfres neu ragor o gamau gweithredu a sancsiynau rhestredig sy'n cynnwys, er enghraifft, ymddiheuriad ysgrifenedig, addasu traethawd ymchwil a cheryddon ffurfiol eraill gan gynnwys gwaharddiad o'r Brifysgol.

31. Mae gan y Brifysgol Dîm Achosion Myfyrwyr canolog sydd â'r rôl ganlynol mewn perthynas ag achosion o Gamymddwyn Academaidd:

31.1. Cyngori Ysgolion ar y camau sydd eu hangen yn unol â'r gweithdrefnau;

31.2. Cynnull panel, a chefnogi proses y panel (os penderfynwyd yn ystod yr ymchwiliad cynharach bod angen panel); a

31.3. Chofnodi canlyniad ymchwiliad, beth bynnag fo'r canlyniad (gan gynnwys diystyru'r pryderon).

Datganiad ar ymchwiliadau i Gamymddygiad Ymchwil

32. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, cafwyd tri (3) chyhuddiad/cyfres o gyhuddiadau yn unol â gweithdrefn ARM y Brifysgol (ARM 21.04, ARM 21.05 ac ARM 22.01). Dyma oedd y penderfyniadau yn yr achosion hyn:

32.1. ARM 21.04 – ei diystyru yn yr Adolygiad Rhagarweiniol gan na roddwyd unrhyw dystiolaeth o gamymddwyn. Roedd yr honiad a godwyd yn ymwneud â gwahaniaeth barn ynghylch yr ymchwil.

32.2. ARM 21.05 – nododd yr Adolygiad Rhagarweiniol nad oedd dystiolaeth o ARM. Fodd bynnag, ymchwiliwyd i'r materion a godwyd o dan weithdrefn arall y Brifysgol (Y Weithdrefn Gwyno/Disgyblu staff).

32.3. ARM 22.01 - materion a godwyd yn ymwneud ag ymchwiliad llawn blaenorol a ddaeth i ben yn 2012-2013. Canfu'r adolygiad fod y casgliad/camau a gymerwyd ar y pryd yn briodol ac nad oedd yn rhaid i'r Brifysgol gymryd camau pellach.

33. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022, derbyniodd y Tîm Achosion Myfyrwyr un (1) adroddiad o ymchwiliad i Gamymddwyn Academaidd mewn perthynas â myfyriwr ymchwil ôl-raddedig (a gynhaliwyd yn unol â Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) y Brifysgol). Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â mater o awduraeth a gwrthodwyd y pryderon ynghylch Camymddwyn Academaidd yn erbyn y myfyriwr ymchwil ôl-raddedig yn dilyn ymchwiliad gan Bennaeth yr Ysgol.

Beth mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu yn sgîl yr ymchwiliadau?

34. Dysgwyd y gwersi canlynol yn sgîl yr ymchwiliadau ARM a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022:

34.1. Bod anghydfodau o ran awduraeth yn parhau i fod yn un o'r meysydd cyffredin ar gyfer ymholiadau a honiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn ARM a gall fframweithiau megis [CRediT](#) fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael ag anghydfodau o'r fath (yn achos disgyblaethau gwyddoniaeth yn bennaf). Mae'n amlwg y dylai'r Brifysgol barhau i annog ymchwilwyr i ystyried a dogfennu rolau cyfranwyr ar ddechrau prosiectau ymchwil ar y cyd (a'u diweddarau yn ôl yr angen drwy gydol y prosiect) er mwyn osgoi problemau rhag codi yn ddiweddarach.

34.2. Y dylai'r Weithdrefn ARM ddiwygiedig sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng y Weithdrefn a pholisïau/gweithdrefnau perthnasol eraill y Brifysgol i hwyluso'r broses o gyfeirio ymchwiliad i faterion a godwyd at weithdrefn arall pan fo hyn yn briodol.

35. Mewn perthynas ag achosion o Gamymddwyn Academaidd gan fyfyrwyr, mae'r Brifysgol yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o wella'r broses o adnabod a rhoi gwybod am faterion cyffredin sy'n codi mewn system pan ymchwilir i'r rhan fwyaf o achosion o Gamymddwyn Academaidd a'u datrys yn lleol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal darn o waith ar y cyd â grŵp sector ehangach (Rhwydwaith Asesu ac Uniondeb Cymru) i ddeall sut mae'r Brifysgol yn cyflawni egwyddorion Siarter Uniondeb Academaidd yr ASA. Hwyrach y bydd y gwaith hwn yn arwain at gamau i wella'r gwaith o hyrwyddo Uniondeb Academaidd ymhlith y myfyrwyr a gwella'r prosesau o ran ymchwilio ac adrodd yn y maes hwn.

Creu ac ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus eu bod yn gallu rhoi gwybod am achosion o gamymddwyn

36. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin diwylliant lle mae pob un o'i staff a'i myfyrwyr yn gallu rhoi gwybod am gamymddwyn a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses hon. Mae gan y Brifysgol sawl mecanwaith at ddibenion hyn gan gynnwys:

- Y cyngor a'r cymorth sydd ar gael gan dimau/cysylltiadau canolog y Brifysgol ar ystod o bynciau a themâu gan gynnwys uniondeb ymchwil, moeseg ymchwil, diwylliant ymchwil, asesu ymchwil gyfrifol a chwythu'r chwiban.
- Enw cyswllt penodol a enwir ar gyfer honiadau ARM.
- Rhwydwaith o Arweinwyr Uniondeb Ymchwil yr Ysgolion a Swyddogion Moeseg (yr enwau cyswllt lleol).
- Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil y Brifysgol sy'n ymwneud â chynnwys pwrpasol ar roi gwybod am gamymddygiad ymchwil ac sy'n cyfeirio staff at gefnogaeth fewnol a'r UKRIO sy'n rhoi cyngor allanol ac annibynnol.
- Cyflwyno sesiynau penodol i Ysgolion am uniondeb ymchwil a/neu hyfforddiant ar gamymddygiad ymchwil pan fo angen neu pan ofynnir am hyn.

37. Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu a monitro ei dulliau yn y maes hwn a bydd yn myfrio ar ei systemau presennol a'r gwelliannau posibl sy'n rhan o'r ymarfer Hunanasesu y cyfeirir ato ym mharagraff 8.

Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn

38. Cydlynwyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Blynyddol hwn gan y Tîm Uniondeb, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (RIGE). Cymeradwywyd drafft o'r datganiad hwn gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ar 11 Hydref 2022 a'i gymeradwyo gan ORIEC (yn amodol ar rai mân newidiadau ac ychwanegiadau) ar 20 Hydref 2022.
39. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol hefyd gan Bwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol ar 10 Tachwedd 2022 a'i ardystio gan y Cyngor a'r Senedd ar 24 Tachwedd 2022 a 30 Tachwedd 2022 yn y drefn honno.

Cwestiynau ar y Datganiad Blynyddol hwn

40. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Datganiad Blynyddol hwn at Swyddog Uniondeb a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol (cullene1@caerdydd.ac.uk) neu'r tîm Uniondeb, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (resgov@caerdydd.ac.uk).

Yr Athro Roger Whitaker
Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter
Tachwedd 2022

Allwedd yr acronymau

AHSS	Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
ARM	Camymddwyn o ran Ymchwil Academaidd
ASPA	Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986
ASRU	Uned Rheoleiddio Anifeiliaid ym maes Gwyddoniaeth
BLS	Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd
CRedit	Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr
CTIMP	Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol
DORA	Datganiad ar Asesu Ymchwil
DWG	Gweithgor DORA
GW4	Great Western 4/Cynghrair y GW4
HEECA	Cymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch
HTA	Deddf Meinweoedd Dynol 2004
HTSC	Y Pwyllgor Safonau Meinweoedd Dynol
MRes	Meistr Ymchwil
MPhil	Meistr Athroniaeth
NC3R	Y Ganolfan Genedlaethol er Amnewid, Mireinio a Lleihau'r Defnydd o Anifeiliaid ym maes Ymchwil
ORIEC	Y Pwyllgor Uniondeb a Moeseg Ymchwil Agored
OROG	Y Grŵp Gweithredol ar Ymchwil Agored
PGT	Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir
PSE	Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg
PVC	Rhag Is-ganghellor
RCAT	Tîm Cyngor Ymchwil ar y Cyd
RCWG	Y Gweithgor ar Ddiwylliant Ymchwil
RGRIF	Fforwm Uniondeb Ymchwil Grŵp Russell
RIGE	Y Tîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg
SREC	Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgolion
UEB	Bwrdd Gweithredol y Brifysgol
UG	Israddedig
UKRI	Ymchwil ac Arloesedd y DU
UKRIO	Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU
UKRN	Rhwydwaith Atgynhyrchedd y DU
UUK	Prifysgolion y Deyrnas Unedig